

PRIFYSGOL BANGOR

PWYLLGOR IECHYD A DIOGELWCH

- Cyfarfod:** 24 Hydref 2018
- Presennol:** Yr Athro G Roberts (Cadeirydd), Miss S Barnes, Mrs T Hibbert, Mr A Jones, Dr L Jones, Dr J Latchford, Dr K Mundy, Mr D Owen, Mrs R Parry, Miss E Riches, Mr S Roberts, Yr Athro P Spencer, Mrs E Parry Williams, Mr G W Jones (Ysgrifennydd).
- Ymddiheuriadau:** Yr Athro C Tully, Mr H Ellis, Dr H Roberts, Mr W Jones

CYFLWYNIADAU

Cyflwynodd Cadeirydd newydd y pwyllgor, yr Athro Gareth Roberts, ei hun a chroesawodd aelodau newydd eraill.

Trafodwyd Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch, sy'n Is-bwyllgor o Gyngor y Brifysgol, a nodwyd bod y pwyllgor yn eithaf nodedig, yn yr ystyr bod staff academiaidd a gwasanaethau yn dod iddo, ynghyd â chynrychiolwyr myfyrwyr, yn ychwanegol at aelodau o'r Cyngor a staff uwch y brifysgol. Felly, mae'r pwyllgor yn gweithredu fel pwyllgor llywodraethu iechyd a diogelwch ac i ymgynghori â staff a myfyrwyr.

Nodwyd bod y Grŵp Tasg Iechyd a Diogelwch yn goruchwylio rheoli iechyd a diogelwch, gan ddarparu adroddiad i'r pwyllgor hwn.

543. COFNODION

Cadarnhawyd a llofnodwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 23 Mai 2018.

544. MATERION YN CODI

- a) 536(a) Adroddiad yr Is-Bwyllgor Iechyd a Diogelwch Cemegol a Biolegol: Yn dilyn ymweliad gan Arolygydd Arbenigol GM yr HSE, mae Ystafell Tyfu Planhigion newydd wedi cael ei sefydlu yn adeilad Thoday. Bydd y Swyddog Diogelwch Biolegol yn hysbysu'r Arolygydd HSE o hyn unwaith y bydd y project sy'n weddill yn yr hen Ystafell Tyfu Planhigion wedi'i gwblhau.
- b) 536(d) Cydlynnydd Iechyd a Diogelwch Colegau'r Celfyddydau, Dyniaethau a Busnes a Gwyddorau Dynol: Enwebwyd Rheolwr Coleg a Dirprwy Reolwr Coleg y Coleg Gwyddorau Dynol a Dirprwy Reolwr Coleg y Celfyddydau, Dyniaethau a Busnes i oruchwylio trefniadau iechyd a diogelwch yn eu gwahanol golegau.

545. GRŴP TASG IECHYD A DIOGELWCH

Mae'r grŵp tasg wedi cyfarfod ddwywaith ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor

Iechyd a Diogelwch. Nodwyd yr eitemau allweddol isod yn y cyfarfodydd hynny:

- i. *Cofrestriadau Landlordiaid*: Mae'r dasg hon bellach wedi'i gwblhau, gyda'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Eiddo a Champws wedi'i restru fel Landlord y Brifysgol.
- ii. *Hyfforddiant i Staff Uwch*: Ym mis Gorffennaf bu nifer o staff uwch ar hyfforddiant IOSH Directing Safely. Mae mynd ar y cwrs hwn yn Ddangosydd Perfformiad Allweddol (KPI) sefydliadol, ac anogir holl Gyfarwyddwyr, Deoniaid a Dirprwy Is-gangellorion i fynd arno.

Codwyd mater hyfforddiant ar gyfer aelodau'r Cyngor a nodwyd bod pob aelod newydd o'r Cyngor yn cael cyfarwyddyd gan Ysgrifennydd y Brifysgol sy'n cynnwys iechyd a diogelwch.
- iii. *Arweinyddiaeth a Rheolaeth UCEA - Dadansoddiad Bwlch*: Mae'r grŵp tasg wedi ystyried yn fanwl y Dadansoddiad Bwlch drafft ar bob pwynt o Safonau Arweinyddiaeth a Rheolaeth UCEA ar gyfer y Cyngor a'r Arweinyddiaeth Weithredol. Mae perfformiad bellach wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol.
- iv. *Datganiad Polisi Iechyd a Diogelwch y Brifysgol, Adolygiad*: Bydd y grŵp tasg yn adolygu'r Datganiad Polisi yn fuan, gyda'r bwriad o gael y Pwyllgor I a D i ystyried y Datganiad yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2019.
- v. *Archwiliad Mewnol*: Mae tîm archwilio (allanol) y brifysgol wedi cynnal Archwiliad Mewnol o Lywodraethu Iechyd a Diogelwch ac mae'r grŵp tasg wedi ystyried cynnwys yr Adroddiad i ddechrau. Nodwyd bod yr Adroddiad yn nodi bod:
 - a) Trefniadau'r brifysgol i reoli iechyd a diogelwch yn rhoi 'sicrwydd rhesymol' i'r Cyngor.
 - b) Yr Adroddiad yn cynnwys saith argymhelliad lefel 'isel' ac un argymhelliad 'canolig' yn ymwneud â chofnodi gweithgaredd hyfforddi staff.

Bydd y grŵp tasg yn adrodd ar y Cynllun Gweithredu i roi sylw i argymhellion yn y Pwyllgor IaD yn Ionawr 2019.

546.

ADRODDIADAU ARCHWILIO/ADOLYGU

Ers y cyfarfod diwethaf, mae'r Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch wedi cwblhau'r archwiliad ar Systemau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Ganolfan Rheolaeth.

Ystyriodd yr archwiliad y Trefniadau Rheoli Iechyd a Diogelwch cyffredinol, ynghyd â thair risg benodol: Cydymffurfio â Gofynion Statudol, Diogelwch Bwyd a Chegin a Digwyddiadau a Hwylusir gan y Ganolfan.

Nodwyd bod staff yn ymwneud yn gadarnhaol â'r broses hon a chroesawyd eu cefnogaeth.

Cafodd y Ganolfan Rheolaeth sgôr o 'Arfer Da', gyda sgôr cyffredinol o 94% yn y categori hwnnw, gyda dim ond mân newidiadau angen eu gwneud i gael sgôr o 'Arfer Gorau'. Gwnaed nifer o argymhellion hefyd i alluogi'r Ganolfan i wella ei

threfniadau ymhellach.

547.

ADRODDIAD BLYNYDDOL IECHYD A DIOGELWCH

Rhoddwyd crynodeb o Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch 2017/2018, a ddsbarthwyd yn flaenorol, a nodwyd y pwyntiau allweddol canlynol:

- a. ***Damweiniau a Digwyddiadau:*** Cafwyd adroddiadau am 61 damwain a achosodd anaf i staff a myfyrwyr (46 i staff a 15 i fyfyrwyr). Mae hyn yn gynnydd bach ar y 58 damwain anaf a gofnodwyd yn 16/17.

Roedd cymhareb anafiadau damweiniau'r staff yn 22 o ddamweiniau i bob 1,000 o weithwyr, cynnydd ar yr 16.5 damwain i bob 1,000 a gofnodwyd yn 2016/17. Mae'r gymhareb o ddamweiniau a achosodd anaf i staff a myfyrwyr yn is na'r hyn sy'n arferol yn y sector.
- b. ***Damweiniau a achosodd golli amser o'r gwaith:*** Adroddwyd am un anaf a achosodd golli amser o'r gwaith. Roedd hyn yn gysylltiedig â mater meddygol hanesyddol ac ystyriwyd nad oedd angen rhoi gwybod amdano dan RIDDOR.
- c. ***Absenoldeb Salwch:*** Collwyd 8,542 o ddyddiau gwaith o ganlyniad i absenoldeb salwch y rhoddwyd gwybod amdano; mae hyn yn cyfateb i 5.4 diwrnod/CALI neu 2.48% o amser gwaith yn cael ei golli. Derbyniwyd Tystysgrif Meddyg (nodyn ffitrwydd i weithio) ar gyfer 81% o'r holl absenoldebau salwch (diwrnodau). Roedd absenoldebau hirdymor (rhai dros 20 diwrnod) yn cyfrif am 63% o'r holl ddyddiau absenoldeb, gostyngiad o 4.5% ar 16/17.
- d. ***Larymau Tân yn Canu:*** Cafwyd 99 achos o larymau tân yn canu yn adeiladau'r brifysgol (40 mewn adeiladau academiaidd a 59 mewn neuaddau preswyl), gostyngiad o 18% ar y 121 yn 16/17. Daeth Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru i'r brifysgol ar 21 achlysur oherwydd galwad tân, 19 o'r rhain i neuaddau preswyl.
- e. ***Tanau:*** Cafwyd un tân (yn unol â'r diffiniad). Roedd hwn yn ddigwyddiad a ystyrir fel ymgais fwriadol i ddechrau tân, ond ni achoswyd unrhyw ddifrod sylweddol.
- f. ***Hyfforddiant iechyd a diogelwch cyffredinol:*** Yn ystod y flwyddyn, trefnodd y Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch 39 o gyrsiau wyneb yn wyneb i 166 o gyfranogwyr.
- g. ***Cynefino cyffredinol i aelodau staff:*** Ar hyn o bryd mae'r gofyn statudol i ddarparu gwybodaeth a hyfforddiant addas ar Iechyd a Diogelwch i staff yn cael sylw trwy fynd i gyfarfod cynefino'r brifysgol, ac/neu fynd i gyfarfod cynefino lleol. Yn 2017/18, mynychodd 63% o staff newydd y cynefino hwn, gostyngiad o 16% ar 16/17, ac yn sylweddol is na'r targed a osodwyd ar gyfer y flwyddyn.

Yn 18/19, bwriedir cyfnerthu'r Cynefino IaD presennol gyda system ar-lein a fydd yn gwneud monitro a chofnodi presenoldeb yn symlach. Er mwyn

adlewyrchu'r effeithlonrwydd gwell hwn, bydd targed sefydliadol ar gyfer cwblhau'r Cynefino IaD gan staff newydd priodol yn cael ei bennu'n 90% ar gyfer 2018/19.

- h. **Teithio Dramor:** Cofnododd 1,797 o staff/myfyrwyr deithiau tramor ar y gronfa ddata yswiriant ganolog. O'r rhain, adroddwyd am 11 digwyddiad lle bu'n rhaid i staff/myfyrwyr gael sylw meddygol dramor.
- i. **Digwyddiadau'n ymwneud â cherbydau:** Cafwyd 10 hawliad a oedd yn ymwneud â damweiniau cerbydau modur yn ystod y flwyddyn; roedd 9 o'r rhain ar gyfer cerbydau a huriwyd ac a gafodd eu difrodi tra oeddent ar log i aelodau staff ar fusnes y brifysgol. Nid oedd unrhyw anafiadau.
- j. **Achosion sifil i hawlio iawndal:** Cafwyd un Hawliad Atebolrwydd Cyhoeddus newydd am anaf honedig a ddigwyddodd ar eiddo'r brifysgol.
- k. **Adroddiadau am ddigwyddiadau na achosodd anafiadau:** Derbyniwyd 134 o adroddiadau am ddigwyddiadau na achosodd anafiadau. Roedd y rhain yn cynnwys 11 adroddiad am salwch/cyflwr meddygol, 87 am ddigwyddiadau a allai fod wedi achosi damwain a 36 adroddiad am arfer anniogel.
- l. **Arolygiadau safleoedd:** Cynyddodd nifer yr Archwiliadau Iechyd a Diogelwch mewnol dan arweiniad PACS yn sylweddol i 258 (129 yn 16/17). Roedd 65.5% yn ymwneud ag arferion gwaith contractwyr gyda'r gweddill yn gysylltiedig â gweithgareddau staff y brifysgol. Nododd 91% o'r Archwiliadau 'Safon dda', arweiniodd 6% ohonynt at roi 'Rhybudd' a darganfu 3% achosion o 'Ddiffygion Difrifol'. Roedd yr holl ddiffygion difrifol yn ymwneud â gweithgareddau contractwyr.

548.

ADRODDIAD AR FATERION GWASANAETHAU EIDDO A CAMPUS (PACS)

Cyflwynwyd adroddiad ysgrifenedig yn y cyfarfod a chodwyd y pwyntiau allweddol canlynol:

- a. **Rhaglen Ad-drefnu a Newid PACS:** Cafwyd diweddariad ar yr ad-drefnu arfaethedig a phenodi Contractwr Rheoli Cyfleusterau Caled a Chontractwr Rheoli Projectau.
- b. **Defnyddio Lle a Rheoli Eiddo:** Mae astudiaeth ar ddefnydd lle ar draws yr ystâd ar y gweill i bennu mesurau effeithlonrwydd gorau fesul adeilad a safle. Bydd y broses hefyd yn nodi adeiladau nad ydynt bellach yn addas i'r pwrpas.
- c. **Cyllideb 18-19 PACS:** Ar hyn o bryd mae PACS yn nodi sut i gyflawni gostyngiad o 10% yn y gyllideb. Nodwyd na fydd hyn yn cynnwys gostyngiad o 10% ar y gyllideb graidd M&E/cynnal a chadw statudol. Mae goblygiadau gostyngiad o ran cynnal a chadw adeiladau yn cynnwys:
 - i. Dim bwriad i dynnu /cywiro eitemau asbestos oni bai eu bod wedi'u cynnwys o fewn 'cod project' ac/neu fel rhan o waith asbestos brys.
 - ii. Tynnu adeiladau categori 'Risg Isel' o'r rhaglen ail-

archwilio/adolygu bresennol yn ymwneud ag Asesiadau Risg Tân i Adeiladau.

549. UNRHYW FATERION ERAILL

Dim.

Bwriedir cynnal Pwyllgorau IaD 2019 ar y dyddiadau a ganlyn:

Mercher 30 Ionawr 2019, 9.30am, Ystafell y Cyngor

Dydd Mercher 5 Mehefin 2019, 2.30pm, Cledwyn 3